County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2000

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2000

# AGENDA

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL |
| **Dyddiad ac amser y cyfarfod** | DYDD MERCHER, 14 CHWEFROR 2018, 10.00 AM |
| **Lleoliad** | YSTAFELL BWYLLGORA 4 - NEUADD Y SIR |
| **Aelodaeth** | Cynghorydd Patel (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Lancaster, Lay, Mackie, Owen, Wong a/ac Wood |

**1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 Datgan Buddiannau**

Dylid gwneud hyn ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw, yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

**3 Cynigion ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2018/19 – Trosolwg Corfforaethol (10:10am tan 10:55am)** *(Tudalennau 1 - 96)*

a) Gwahoddir y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i wneud datganiad byr.

b) Bydd Christine Salter (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Adnoddau) yn rhoi cyflwyniad ar Gynigion Cyllideb Ddrafft 2018/19.

c)

d) Yn dilyn y cyflwyniad ar Gynigion Cyllideb Ddrafft 2018/19 bydd Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad ar gael i ateb unrhyw gwestiynau gan Aelodau.

**4 Cynllun Corfforaethol Drafft 2018 tan 2021 a Chynigion Cyllideb Ddrafft 2018/19 (1010:55am tan 1pm)**

**Portffolio Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth**

a) Gwahoddir y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio

Strategol a Thrafnidiaeth i wneud datganiad byr ar y rhannau o'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd sy'n berthnasol i'w bortffolio o gyfrifoldeb.

b) Bydd swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn rhoi cyflwyniad ar gynigion cyllideb ddrafft y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd sy'n berthnasol i'r Portffolio Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth.

c) Bydd y Cynghorydd Caro Wild a swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd ar gael i ateb cwestiynau'r Aelodau ar feysydd Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd sy'n berthnasol i'r Portffolio Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth.

**Portffolio Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd**

d) Gwahoddir y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glan, Ailgylchu a'r Amgylchedd i wneud datganiad byr ar y rhannau o'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd sy'n berthnasol i'w bortffolio o gyfrifoldeb.

e) Bydd swyddog o'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd yn rhoi cyflwyniad ar gynigion cyllideb ddrafft y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd sy'n berthnasol i'r Portffolio Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd.

f) Bydd y Cynghorydd Michael Michael a swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd ar gael i ateb cwestiynau'r Aelodau ar feysydd Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd sy'n berthnasol i'r Portffolio Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd.

**5 Eithro'r Cyhoedd**

Ni chaiff y wybodaeth yn yr eitemau canlynol ei chyhoeddi yn sgil paragraffau 14 a 21 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**6 Atodiad 10 – Ffioedd a Chostau wedi'u Heithrio – (1pm tan 1:15pm)**

Mae **Atodiad 10** y blaenadroddiad o'r enw 'Cynllun Corfforaethol Drafft 2018 tan 2021 a Chynigion y Cabinet ar gyfer Cyllideb Drafft 2018/19' wedi'i roi i'r Aelodau ar bapurau melyn ac mae'n cyfeirio at ystod o ffioedd a chostau ar gyfer 2018/19. Ystyrir bod y rhain wedi'u heithrio o gael eu cyhoeddi'n gyhoeddus yn rhinwedd paragraff(au) 14, 21 Rhan(nau) 4 a 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Ar y pwynt yma, bydd angen i'r Aelodau benderfynu a oes ganddynt unrhyw gwestiynau yr hoffent eu gofyn ar y cynigion yn **Atodiad 10**. Os bydd yr Aelodau am ofyn unrhyw gwestiynau ar y cynigion yn **Atodiad 10** yna bydd angen dod â'r cyfarfod i ben dros dro fel y gellir craffu mewn sesiwn sydd ar gau. Os bydd y craffu yn parhau mewn sesiwn sydd ar gau yna caiff holl aelodau'r cyhoedd yn y cyfarfod eu heithrio dros dro tra bod eitem agenda 5 yn cael ei thrafod.

**7** **Ffordd Ymlaen (1:15pm tan 1:45pm)**

**8** **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**
Dyddiad: Dydd Iau, 8 Chwefror 2018
Cyswllt: Graham Porter, 029 2087 3401, g.porter@cardiff.gov.uk